PROSIECT WICKED

ADRODDIAD CHWARTER BLWYDDYN - EBRILL - MEHEFIN, 2008

TIR COED

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

COMIC RELIEF

The Princess Royal Trust for Carers

Hilton IN THE COMMUNITY FOUNDATION

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

1. Trosolwg o Weithgareddau Tir Coed:

1. Bu tîm Tir Coed yn cyfarfod yn fisol er mwyn trafod cynnydd a materion cysylltiedig dan arweiniad John Wilding, Ysgrifennydd y Cwmni.

2. Er i nifer o geisiadau eu gwneud i Ymddiriedolaethau Elusennol bychain, nid yw'r rhain wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn. Mae gan Ymddiriedolaethau eraill ofynion mwy uniongyrchol, felly bydd angen mwy o amser i deilwra ein ceisiadau i gydweddu â blaenoriaethau pob Ymddiriedolaeth unigol.

3. Mae pob un o arianwyr prosiect WICKED wedi cytuno i gario unrhyw danwariant o Flwyddyn 1 ymlaen i gyllideb Blwyddyn 2.

4. Cynhaliwyd cyfarfod chwe misol Bwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed ar y 10fed o Ebrill 2008. Croesawyd dau gyfarwyddwr newydd i'r cyfarfod, Paul Subbachi o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Keith Blacker perchennog coedlan sydd wedi ymwneud â Chartref Plant Cenedlaethol a Mencap dros gyfnod hir.
   Rhoddwyd cyflwyniad ar gyraeddiadau blwyddyn cyntaf prosiect WICKED a cymeradwywyd y polisïau canlynol:
   Cynllun Y Gymraeg, Polisi Recriwtio y Bwrdd Cofnodion Troseddau (BCT / CRB) a Pholisi Diogelwch BCT.

5. Paratowyd Pro Forma a chyllideb 4 mlynedd manwl gan Gwyneth ar gyfer Adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid & Oedolion LlCC. Mae'r adran yn ceisio am arian o'r rhaglen Cydgyfeiriant Ewropeaidd ar gyfer "Reach The Heights" – rhaglen sydd yn canolbwyntio ar gynyddu lefelau cyrhaeddiad ac ysgogi lefelau gallu pobol ifanc anos eu cyrraedd yng Nghymru.
   Cawsom ein siomi yn fawr yn y diwrnodau diwethaf gan ddysgu, yn ôl gweithdrefnau newydd Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru a gyhoeddwyd yn Mehefin 2008, nad ellir cynnwys prosiectau lleol na rhanbarthol yn bartneriaid prosiect ar gyfer "Reach The Heights".
   Bydd Gwyneth nawr yn cysylltu â'r mudiadau cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn bartneriaid prosiect "Reach The Heights", fel Urdd Gobaith Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Plant yng Nghymru, er mwyn darparu gwybodaeth ar weithgareddau Tir Coed ac i weld os oes yna unrhyw gyfleoedd i fod yn rhan o'u pecynnau trosglwyddo. Ond, mae gweithdrefnau SAEC (WEFO) yn mynnu y dylai pob gaffaeliad fod trwy dendr trwy gwefan Sell2Wales. Mae Tir Coed yn barod wedi cofrestru yn ddarparwr gwasanaeth ar y wefan hon.

6. Rhoddwyd wybod i Tir Coed na fuom yn llwyddiannus yn ein cais i raglen y Gronfa Loteri Fawr – Mental Health Matters. Y rheswm a roddwyd oedd nad oedd yna ddigon o arian ar gyfer pob cais a dderbyniwyd. Ar hyn o bryd mae Gwyneth yn ymchwilio i gyfleoedd ariannu eraill ar gyfer prosiect EGIN arfaethedig Tir Coed.

7. Mynychodd Becky ddiwrnod hyfforddiant Dilysyddion Mewnol y Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA) ym Mangor. Yn dilyn yr hyfforddiant hwn, datblygodd Becky bortffolio gweinyddiaeth ar gyfer Tir Coed. Bu hefyd yn cynorthwyo wrth ddarparu a dilysu yn fewnol uned adeiladu RhCA yn Sir Gaerfyrddin.

8. Treuliodd griw o rhaglen BBC Radio 4 – "Open Country" – ddiwrnod gyda Gofalwyr Ifanc Ceredigion yn rhan o weithgaredd WICKED. Neilltuwyd y rhaglen gyfan, a ddarlledwyd yn gyntaf ar Ebrill 5ed, i Ofalwyr Ifanc a fu'n ymwneud â'n prosiect a'u teuluoedd. Anfonwyd gopi o'r rhaglen hon i bob un o arianwyr prosiect WICKED.

9. Cyfarfodd y tîm â Mike Pitcher, o Dîm Polisi Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Datganodd Mike yr hoffai CC Cymru fuddsoddi yn hirdymor mewn mudiadau a allai weithredu ei polisïau yn effeithiol ac effeithlon; roedd ganddo llawer o ddiddordeb yng ngwaith Tir Coed. Trafodwyd y posibiliad o CC Cymru yn ymgymerid i werthuso ein gweithgareddau, a'r posibiliad o Tir Coed yn cyfranni i seminar ar gyfer Rheolwyr CC yn hwyrach yn y flwyddyn hon.

10. Cyfarfodd y tîm â James Parkin, Swyddog Polisi Iechyd & Hamdden Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Daeth James â rhaglen "Cymunedau & Natur" i'n sylw, rhaglen Cronfa Cydgyfeiriant a weinyddir gan CCGC, ac awgrymodd y gallai prosiect EGIN gael ei gynnig yn Fynegiant o Ddiddordeb.
Awgrymodd James y gallai'r ffordd ymlaen i Tir Coed fod i dendro am Gytundebau Lefel Gwasanaeth, e.e. gydag adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn darparu gweithgareddau ar gyfer plant mewn gofal.
Dywedodd James hefyd y bod gan CCGC a LlCC un Diwrnod Gwirfoddoli ar gyfer eu holl staff. Gallai gweithgaredd o fath WICKED, e.e. gweithio pren irlas, ei gynnig. Gallasai hyn fod o fudd i Tir Coed ac i staff CCGC / LlCC.

11. Mynychodd Gwyneth gynhadledd Cronfa Loteri Fawr ar iechyd meddwl. Roedd yn ddigwyddiad rhwydweithio gwych. Crëwyd cysylltiadau gyda phrosiect o'r enw "Small Steps", sydd yn weithgar yn Sir Drefaldwyn yn cynnig gweithgareddau ar gyfer ieuenctid, 16 mlwydd oed ac yn hŷn, a allai fod yn profi dirywiad yn eu hiechyd meddwl.
Rhoddwyd cyflwyniadau gan 2 o'r prosiectau sydd wedi derbyn arian dan raglen "Mental Health Matters" y CLF.

12. Mae Chris wedi paratoi Cyfrifon Tir Coed ar gyfer 2007-08; anfonwyd y cyfrifon hyn ymlaen i Melanie Corfield, o Gyfrifwyr Morgan Griffiths, i'w harchwilio.

2. Gweithgareddau yn y bumed chwarter wedi eu rhestri dan fentrau unigol prosiect WICKED:

(Gan gynnwys cyrhaeddiad yn erbyn targedau ac adborth)

a) Cynllun MÊS

(Gweithgareddau gorffwysol i Ofalwyr Ifanc)

Yn ystod y chwarter blwyddyn hyn, prynodd Tir Coed offer gwersylla ar gyfer criwiau Gofalwyr Ifanc Powys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Bydd yr offer hyn yn galluogi i'r criwiau gymeryd mantais o gyfleoedd am seibiant yn annibynnol, neu yn ran o weithgareddau prosiect WICKED. Bydd Staff Gofalwyr Ifanc sydd wedi mynegi diddordeb yn cael eu hyfforddi mewn crefft gwersylla a gweithgareddau goroesi yn ddiweddarach yn y flwyddyn, bydd hyn yn eu galluogi i gynnal gweithgareddau crefft gwersylla gyda'r ieuenctid.

Gofalwyr Ifanc Powys:

Sesiynau Blasu Celf yn y Coed – 3ydd a 4ydd Ebrill

Bu yna 2 sesiwn blasu, un ar gyfer criw Gofalwyr Ifanc Maesyfed ac un ar gyfer criw Gofalwyr Ifanc Brycheiniog. Arweiniwyd y ddau sesiwn gan Nick Waller o'r Play Supply , mewn coedlan ar Ystad Doldowlod, ger Pontnewydd ar Wy.
Diben y sesiynau blasu oedd i adael i'r ieuenctid ymgyfarwyddo â'r goedlan, rhoddi'r rhyddid iddynt chwarae yn y coed ac i gyflwyno stori Buffalo Bill a'r Indiaid Colledig (stori werin sydd yn gysylltiedig â'r goedlan hon).

Roedd yna ardal chwarae anturus yn y goedlan, adeiladodd rhai o'r ieuenctid bontydd rhaff a chwrs antur. Roedd yn dda gennym weld yr ieuenctid yn cydweithio yn rhan o dîm ac i glywed y miri, y sgrechiadau a'r bloeddio wrth iddynt chwarae.
Dewisodd eraill gynorthwyo gan baratoi cinio o gaserol a Chŵn Poeth. Treuliodd un bachgen rhan helaeth o'i ddiwrnod yn adeiladu argae ar draws i nant y goedlan ac yn tyllu pant tŷ bach, a bu un arall yn gyfrifol am dân y gwersyll, gan beidio adael i unrhyw un arall fynd yn agos ato! Denwyd y ieuenctid i lan yr afon yn y prynhawn lle buont yn trochi eu traed.

Bydd yna 2 x 2 sesiwn dilynol preswyl yn ystod mis Awst, byddwn yn annog y ieuenctid i ddatblygu stori Buffalo Bill yn gyflwyniad dramatig yn y goedlan. Bydd y criwiau yn gwersylla yn y goedlan dros nos.
Byddwn yn casglu adborth ac yn gwerthuso holl weithgareddau Celf yn y Coed ar ddiwedd sesiynau dilynol mis Awst, a byddwn yn eu cynnwys yn yr Adroddiad Chwarter Blwyddyn nesaf.

Sesiynau Ysgol Goedwig, Criw Brycheiniog - 27ain &28ain Mai

Mynychodd 8 gofalwr ifanc y sesiynau hyn, yn ardal Llangastai, ger Aberhonddu.
Ar fore'r diwrnod cyntaf, aeth Warden Adar y Parc Cenedlaethol â'r criw i guddfan adar ger Llyn Llangors. Siaradodd y Warden ar hanes y llyn a'r bywyd gwyllt. Bu'r ieuenctid yn medru gwylio nifer o adar sydd yn byw o amgylch y llyn trwy'r ysbienddrych.

Roedd Martin Daws, cerddor rap amgylcheddol yn gydymaith i'r criw. Bu Martin yn cynorthwyo'r ieuenctid i recordio caniadau'r adar o amgylch y llyn. Aeth y ieuenctid a Martin yn ôl i'r ganolfan ymwelwyr yn y prynhawn i weithio ar can rap yn sôn am adar a'r llyn. Defnyddiwyd y recordiadau o ganeuon yr adar yn gefndir i'r caneuon rap ac fe'u recordiwyd ar liniadur.

Roedd yn yr amserlen i'r ieuenctid fynd am dro yn y goedlan cyfagos ar fore'r ail ddiwrnod; ond canslwyd hyn oherwydd iddi fwrw glaw yn ddi baid. Treuliwyd y diwrnod yn y Ganolfan Ymwelwyr, gyda rhai o'r ieuenctid yn gweithio gyda Martin Daws eto, ac eraill yn gweithio gydag Ann Johnson yn creu gan ddefnyddio helyg a deunyddiau o'r llwyn â gasglwyd. Aethant a'r hyn iddynt greu adref gydag hwy, a rhoddwyd CD yr un iddynt o'r gân rap â gyfansoddwyd dros gyfnod y cwrs.

NOD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Cynhyrchodd pob cyfranogydd o leiaf 1 eitem, a CD yr un.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Ni fedrodd 2 o'r gofalwyr ifanc fynychu'r diwrnod cyntaf oherwydd ymrwymiadau teuluol Presenoldeb = 87.5%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Enwodd 100% o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Enwodd 75% o leiaf un math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol o o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 75% yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 100% yn teimlo'n well yn eu hunain	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd pawb eisiau gwneud mwy o weithgareddau WICKED.	

Hoffterau - *"mynd i'r cyfrifiadur a llosgi'r ddisg"*

“gwneud y daliwr breuddwydion”
“mynd am dro yn y glaw”
“popeth”
“gallu gwneud cerddoriaeth a’i gadw!”

Anhoffterau - *“mynd am dro yn y glaw”*
“dim byd” x 4
“pan roedd yn bwrw glaw!”

Ym mha ffordd ydych chi’n teimlo’n well am eich hunan wedi’r weithgaredd? –
“oherwydd fy mod yn hoffi gwneud pethau”
“Rwy’n teimlo’n hapus”
“Bod i ffwrdd o fy mrawd a’m chwaer. Rwy’n teimlo wedi ymlacio”
“Bod i ffwrdd o’m chwaer”
“Ei fod yn hwyl ac bod gennyf rhywbeth i’w roddi ar lythyr fy CV”
“Rwy’n teimlo’n fwy hyderus yn fy hunan ac rwyf wedi dysgu sgiliau newydd”
“Rwyf wedi closio i bobl newydd”.

Adborth o Weithiwr Gweithgareddau’r Gofalwyr Ifanc:
“*Wrth gydweithio fel criw i greu’r raps, roedd y ieuenctid yn annog a chanmol ei gilydd. Roedd rhai yn anfodlon cael eu recordio ar gychwyn y sesiwn, ond roeddent yn llawn hyder erbyn y diwedd. Roedd Martin Daws yn dda iawn. Roedd medru mynd â’r CD y gwnaethant adref yn dda iawn. Roedd yr holl griw wedi mwynhau gweithio gydag ef.”*

Sesiynau Ysgol Goedwig, Criw Trefaldwyn – 29ain a’r 30ain Mai -

Wedi profi sesiwn blasu yn ystod gwyliau’r Pasg, dychwelodd 10 gofalwr ifanc i Goed Bolbro, ger Abermiwl am weithgaredd preswyl Ysgol Goedwig. Arweiniwyd y gweithgareddau gan 3 aelod o griw clwstwr Menter Addysg Coedwig Trefaldwyn. Croesawyd y ieuenctid gyda thost a siocled poeth wrth y tân gwersyll, ac yna chwaraewyd rhai gemau. Roedd gweithgareddau y Diwrnod Cyntaf yn cynnwys argraffu â thatws, mynd am dro yn y coed a theatr y goedlan. Bu’r ieuenctid yn creu a chyflwyno perfformiadau theatrig, gan ddarganfod eu potensial yn unigol ac fel criw.
Defnyddiodd y criw yr offer gwersylla i Dir Coed brynu ar eu cyfer gan wersylla ar faes ger y goedlan, yn anffodus, nid yw tirwedd Coed Bolbro yn addas ar gyfer gwersylla. Bu’r ieuenctid yn cynorthwyo i godi’r pebyll, ac yna yn chwarae pêl droed a gemau eraill, cyn eistedd am bryd nos – cawl selsig a fflapjacs i bwdin!
Ymunodd Martin Daws, y cerddor rap amgylcheddol, â’r criw ar yr Ail Ddiwrnod. Treuliodd rhai o’r criw eu diwrnod yn creu caneuon am y coed gyda Martin, a bu eraill yn profi gwaith pren irlas gyda Patrick Harrison a Colin Titley. Aeth pawb adref â CD rap a gwrthrychau iddynt greu dros y 2 ddiwrnod.

NOD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o’r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a’u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Aeth pob cyfranogydd ag o leiaf un eitem adref gydag hwy	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o’r amser.	Cyfradd Presenoldeb 100%	

O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Enwodd 100% o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Enwodd 100% o leiaf un math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 66% yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 100% yn teimlo'n well yn eu hunain	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd pob ymatebydd eisiau gwneud mwy o weithgareddau	

Hoffterau – *"Cysgu yn y gwersyll" x 4*
"Coginio"
"Popeth" x 3
"Bwyd"
"Gwneud y sioeau"
"Pêl Droed"

Anhoffterau – *"Dim byd" x 4*
"Nid oeddwn yn hoffi'r goedlan ar y diwrnod cyntaf"
"Cael fy mhigo gyda dail poethion"
"Cael pothell"
"Cerdded yn y coed"
"Cysgu yn y babell"

Ym mha ffordd ydych chi'n teimlo'n well am eich hunan wedi'r weithgaredd? –
"Oherwydd bod gennyf gyfle i wneud mwy o ffrindiau"
"Teimlo bod gennyf well ffrindiau, yn falch o'r coginio a'r rap"
"Mwy hyderus wrth gysgu mewn pabell"
"Teimlo'n hapus iawn" x 2
"Teimlo'n fwy hyderus wrth greu pethau"
"Teimlo'n dda yn gyffredinol"

Adborth o'r Gweithiwr Cynorthwyol:
"Nid oedd y merched yn awyddus i ymuno ar y Diwrnod Cyntaf. Roedd rhai o'r bechgyn tra-arglwyddiaethu ar y diwrnod cyntaf, ar adegau yn beryglus efo'u brwdfrydedd a'u hagwedd gwybod pob peth."
"Newidiodd y teimlad yn y criw yn gyfan gwbl ar yr ail ddiwrnod. Roedd y plant yn llawer mwy bodlon ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau. Nid oeddent yn poeni am bwy

arall oedd yn eu criw ac roedd yn ymddangos eu bod yn gweithredu er pleser personol yn hytrach nag i gydweddu â'r criw. Llawer mwy pwyllog a chanolbwyntiedig."
"Dangosodd pob un gwellhad yn eu hunan hyder."
"Roedd yr elfen breswyl yn bwysig iawn i'r criw ddod i adnabod ei gilydd ac iddynt gael amser i ymgyfforddduso â phalu ymlaen."

Adborth o'r hyfforddwr:
"Rwy'n credu i'r cyfranogwyr feithrin ychydig sgiliau a llawer mwy o hyder, ynghyd â gwell perthynas ac ymddiriedolaeth yn yr amgylchfyd naturiol yn gyffredinol. Bu'r merched yn enwedig yn newid o fod ar gyrion y criw, mewn criw arwahan, i gyfranogi yn lawn a magu ymddiriedolaeth."
"Gweithiodd y 2 ddiwrnod a'r cysgu nos yn dda iawn. Erbyn diwedd yr ail ddiwrnod, roedd effaith cronnus yr amser yn yr awyr agored yn amlwg."

Gofalwyr Ifanc Ceredigion:

Dyddiau Hwyl yn y Goedwig – 1af a'r 2il Ebrill, 29ain Mai -

Bu 6 gofalwr ifanc yn ymwneud â'r sesiynau hyn. Arweiniwyd y sesiynau gan Tony Eames yng nghoedlan gymunedol Longwood.
Treuliwyd llawer o'r diwrnod cyntaf gyda'r ieuenctid yn sgwrsio gyda chriw Radio 4 yn ysbeidiol. Sylwebodd criw Radio 4 eu bod wedi gweld gwahaniaeth sylweddol yng ngweithgarwch y ieuenctid – daethant yn llawer mwy ymlaciol a bywiog wrth i'r diwrnod mynd yn ei flaen..
Cynhwysodd gweithgareddau y 2 ddiwrnod cyntaf troi ar y turn polyn, gwneud blancedi sipsiwn ac adeiladu llochesau.

Treuliwyd y 3ydd diwrnod yn mynd ar daith gerdded ac yn ymweld â pharc cerfluniau yn y goedlan.

NOD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Creodd pob cyfranogydd o leiaf 1 eitem.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Ni fedrodd 1 person ifanc fynychu'r diwrnod cyntaf, mynychodd pawb arall y cwrs cyfan = Presenoldeb 94.5%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Enwodd 100% o leiaf un math o goeden.	

Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Enwodd 100% o leiaf un math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 100% yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 100% yn teimlo'n well yn eu hunain	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd pawb eisiau gwneud mwy o weithgareddau WICKED.	

Hoffterau - *"Ymladd gyda ffyn a phopeth"*
"gwneud canhwyllbren"
"Popeth" x 2

Anhoffterau - *"Syrthio"*
"Dim byd" x 3

Beth wnaethoch chwi?
"arf a llawer o sŵn"
"bat, cadair a blanced sipsiwn"
"Llawer o sŵn"
"canhwyllbren"

Ym mha ffordd ydych chi'n teimlo'n well am eich hunan wedi'r weithgaredd? –
"Gwych"
"hapus"
"hyderus" x 2

Adborth o'r Gweithiwr Cynorthwyol:
"Daeth pawb yn llai mewnblyg wrth i'r dydd mynd yn ei flaen. Roedd hwyl dda ar bawb!"
"Bu'r trafodaethau yn cynnwys bywyd gwyllt, bwyd, planhigion, ffyrdd o wella cur pen, effaith tynnu'r rhisgl o goed ayyb."

Adborth o'r hyfforddwr:
Allbynnau dysgu – "defnyddio offer, hunan fynegiant ac ymwybyddiaeth amgylcheddol"
"Llawer o gynnwrf o'r gofalwyr ifanc yn y sesiwn cyntaf wrth ymweld â safle newydd a chael eu cyfweld gan griw Radio 4. Gwelwyd twf yn eu hyder ym mhob sesiwn."

Gwneud Baner & Crysau T:

Yn ystod blwyddyn 1af WICKED, dywedodd Gofalwyr Ifanc Ceredigion y byddent yn hoffi creu logo ar gyfer eu mudiad. Wedi ymgynghori â Pod Clare, artist cymunedol lleol, gwnaethant ffurfio dyluniad i'w brintio ar grysau t.

Yn dilyn hyn, penderfynodd y criw y byddent yn hoffi ymuno â gorymdaith Carnifal Aberaeron, felly roedd angen baner arnynt i arwain yr orymdaith.
Felly, ar Ddydd Sadwrn, y 28ain o Fehefin, cyfarfodd y gofalwyr ifanc yng nghanolfan 'drop in' Aberaeron i ddechrau paratoi at y carnifal. Bu'r criw yn gweithio'n galed iawn, a cwblhawyd y faner a'r rhan fwyaf o'r crysau t.

Bydd gweddill y crysau t yn cael eu gorffen yn ystod y digwyddiad gwersylla preswyl sydd wedi ei drefnu ar gyfer y gofalwyr ifanc ar Fferm Denmarc. Yn ystod y gwersyll bydd y criw hefyd yn gwneud pyped mawr o farcud coch a masgiau o fywyd gwyllt y goedwig i wisgo ar yr orymdaith.
Bydd yr adroddiad llawn o baratoadau'r Carnifal, gan gynnwys yr adborth, yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Chwarter Blwyddyn nesaf.

Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin:

Dyddiau Antur Coedwig – 28ain &29ain Mai

2 weithgaredd 1 diwrnod ar gyfer gofalwyr ifanc oedd y rhain; roedd y cyntaf ar gyfer ieuenctid o 13 i 18 mlwydd oed, a'r ail ar gyfer plant o 6 i 12 mlwydd oed. Mynychodd 7 gofalwr ifanc y diwrnod cyntaf a arweiniwyd gan Jethro Moore o Adventue Beyond. Roedd y weithgaredd hon wedi ei chynllunio ar gyfer Coed Woodhouse, ond oherwydd arolwg tywydd gwael iawn, symudwyd y weithgaredd i safle dan do, Tŷ'r Trysordy ger Caerfyrddin; rydym yn ddiolchgar iawn i'r hyfforddwr am fod mor hyblyg. Treuliwyd y rhan fwyaf o'r dydd yn chwarae gemau tîm, fel 'dodge ball', yn gwneud siapiau o raff a "thwr sbageti".

NOD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Creodd pob cyfranogydd o leiaf 1 eitem.	Roedd hwn yn fwy o weithgaredd na sesiwn crefft.
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Mynychodd 6 am ddiwrnod = Presenoldeb 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:	Oherwydd natur y weithgaredd ac iddo beidio ei leoli mewn coedlan, ni gyrhaeddwyd y nod hwn	

O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 100% yn teimlo'n well yn eu hunain	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd pawb eisiau gwneud mwy o weithgareddau WICKED.	

Hoffterau - *"Gweithio yn dîm"*
"dodge ball"x 6

Anhoffterau - *"y tywydd"*
"Dim byd"

Beth wnaethoch chwi?
"seren allan o raff"

Ym mha ffordd ydych chi'n teimlo'n well am eich hunan wedi'r weithgaredd? –

"Teimlaf yn fwy rhydd!"
"wedi fy adnewyddu ac yn fywiog"
"mae'n hwyl!"

Mynychodd 12 gofalwr ifanc yr ail weithgaredd, a arweiniwyd yn rannol gan Jethro Moore o Adventure Beyond, gyda gweithdy yn y prynhawn dan arweiniad Melissa Holloway. Yn ffodus roedd y tywydd wedi gwella, a cynhaliwyd y weithgaredd yng Nghoed Woodhouse. Treuliwyd y bore yn trywyddu ar gwrs yn y goedwig; dysgodd y cyfranogwyr sut i ddarllen a llunio mapiau a lleoli paneli anifeiliaid a osodwyd yn y coed. Roedd y plant yn llawn egni a brwdfrydedd, a bu'r hyfforddwr yn effeithiol iawn wrth sianelu hyn. Wedi cinio, ac wedi iddynt wneud pop corn ar y tân, rhoddwyd 'stori siwrnai' i'r plant gan Melissa, gan ddefnyddio'r tŷ crwn i fywiogi'r stori. Arweiniodd hyn i gyfres o gemau amgylcheddol, gan gynnwys 'llwybr yr annaturiol' lle bu cyfranogwyr yn adnabod gwrthrychau megir bocsys wyau neu allweddau, pethau nad oedd yn perthyn i amgylchfyd y goedlan, yna cafwyd gweithdy barddoniaeth. Er i rai o'r plant fod yn hoff iawn o ysgrifennu creadigol, nid oedd hyn at ddant pawb ac aeth rhai i chwarae yn y coed cyfagos. Daeth un bachgen o hyd i lindys, a bu'n chwarae gydag ef drwy'r prynhawn. Er i'r criw ymrannu, nid oedd yna unrhyw wasgedd iddynt gyfrannu, ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Gofalwr ifanc a Lindys

NOD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Cynhyrchodd 8 allan o 12 o leiaf 1 eitem (map).	Roedd hwn yn fwy o weithgaredd na

		sesiwn crefft.
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Mynychodd 12 am ddiwrnod cyfan = Presenoldeb 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Enwodd 90% (9 allan o 10 ffurflen a gwblhawyd) o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Enwodd 90% (9 allan o 10 ffurflen a gwblhawyd) o leiaf un math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 70% (7 allan o 10 ffurflen a gwblhawyd) yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd.	Criw ifanc iawn (o 6 i 12 mlwydd oed) gydag ychydig iawn o ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 90% (9 allan o 10 ffurflen a gwblhawyd) yn teimlo'n well yn eu hunain	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd 90% (9 allan o 10 ffurflen a gwblhawyd) eisiau gwneud mwy o weithgareddau WICKED.	

Hoffterau - *"Darganfod y lindys"*
"Cael fy nhroelli gan Carys a teimlo'r coed"
"malws-malys"

Anhoffterau - *"gorchuddio fy llygaid"*
"Dim byd"
"rhedeg"

Beth wnaethoch chwi?
"map"

Ym mha ffordd ydych chi'n teimlo'n well am eich hunan wedi'r weithgaredd? –
"oherwydd ei fod yn hwyl a gwnaeth i mi anghofio am lawer o bethau sy'n creu loes"

“Teimlaf fy mod yn medru darllen map yn well”
“oherwydd i mi wneud ffrindiau newydd”

Pennill a grëwyd gan 2 ofalwr ifanc yng ngweithdy Melissa Holloway:

Running through the woods
Looking at the plants,
Loads of little ants
Crawling up her pants!
Scary little bugs …
We’re playing in the woods.

Adborth o’r gweithiwr cynorthwyol:
“Er eu bod yn ansicr am ddarllen mapiau yn gyntaf, daeth y plant i ddeall yn gyflym a bu hyn yn hwb i’w hyder. Bu rhai o’r plant, sydd fel arfer yn dioddef o ddiffyg canolbwyntio a phroblemau ymddygiad yn gwneud hyn drwy’r sesiwn gan fwynhau sesiynau bore a’r prynhawn.” – Katie Gardner

Adborth o’r Hyfforddwr:
Newidiadau mewn lefelau hyder – “*Roedd yna newid amlwg gydag un bachgen, daeth yn fwy sefydlog, gan ymwneud yn fwyfwy drwy’r sesiwn. Gwellodd ei allu i ymddiried a gwrando hefyd, a gwellwyd ei hyder yn sicr gan wneud pop corn. … Daeth un cyfranogydd, a oedd yn newydd i’r criw, yn fwy integreiddiedig yn ystod y gemau partner gwahanol … Dywedodd ei fod wedi mwynhau’r sesiwn mas draw, a teimlaf bod hyn wedi bod yn rhan ganolog o’i fwynhad”* – Melissa Holloway

Gofalwyr Ifanc Sir Benfro:

Diwrnod Antur Coedwriaeth – 2il Ebrill
Cynlluniwyd i’r weithgaredd hon gael ei chynnal yng Nghoed Woodhouse dan arweiniad Dryad Bushcraft. Yn anffodus roedd yn rhaid ei ganslo ar y funud olaf oherwydd salwch gweithiwr cynorthwyol.

b) Menter GWEITHIO'R GOEDWIG

(ar gyfer ieuenctid 16 – 19 mlwydd oed sydd ddim ym myd addysg, hyfforddiant na gwaith)

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn datblygu cynllun Prentisiaeth Fodern mewn Coedwigaeth ar hyn o bryd, a gobeithir y bydd yn cychwyn yn yr Hydref 2008. Pan fydd y cynllun hwn yn weithredol, gallai ddarparu llwybr hyfforddiant ychwanegol i rai o brentisiaid Gweithio'r Goedwig.

Powys

Mae sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig 2008 ym Mhowys wedi eu cynllunio ar gyfer mis Medi. Mae Gwyneth yn trefnu'r sesiynau hyn ar hyn o bryd.

Ceredigion:

Bydd menter Gweithio'r Goedwig Ceredigion yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Y Tywysog yn rhan o'i Sialens Tîm. Bydd Tir Coed yn darparu gweithgareddau ar gyfer y 3ydd, 4ydd a'r 5ed wythnos o'i rhaglen. Cynigir y dylem ddatblygu'r ardd bywyd gwyllt gan greu llwybr synhwyraidd allan o bren a deunyddiau naturiol eraill yn y Ganolfan Gweithgareddau Cymdeithasol (ar gyfer oedolion ag anableddau corfforol a meddyliol) yn Llanbadarn, Aberystwyth. Bydd y ieuenctid cyfranogol yn ymgynghori â chleientiaid y ganolfan, gan arwain at ddylunio ac adeiladu'r llwybr.

Sir Benfro:

Dechreuodd menter Gweithio'r Goedwig 2008 yn Sir Benfro ar y 25ain o Fehefin. Bydd manylion y prosiect yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Chwarter Blwyddyn nesaf.

Sir Gaerfyrddin:

Dechreuodd sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig 2008 yn Sir Gaerfyrddin ar y 3ydd o Fehefin a daeth i ben ar y 26ain o Fehefin, gyda 6 person ifanc yn mynychu. Cynhaliwyd y prosiect gan Sian Cornelius a Dave Hoyle, a fu'n gydymeithion i'r ieuenctid ac yn datrys unrhyw broblemau a ddaeth i'r amlwg. Camodd Ada Garton a Blair Brown i'r adwy ar rhai ddyddiau pan nad oedd Sian na Dave ar gael. Roedd pob gweithiwr cynorthwyol yn gwbl ymroddedig i'r prosiect, gan gyflawni eu dyletswyddau mewn modd broffesiynol iawn. Trefnwyd y sesiynau blasu yn y modd canlynol:

- 10 diwrnod o adeiladu cymunedol (achrededig RhCA)
- 2 diwrnod Gweithgynhyrchu pren
- 2 diwrnod Sialens Goroesi Preswyl

Adeiladu yn y Gymuned:

Diben y gweithdy 10 diwrnod hwn oedd i adeiladu cysgodfa o bren ar gyfer dosbarth derbyn Ysgol Babanod Porth Tywyn, dan arweiniad Jamie Miller. Lleolwyd y gweithdy yn rannol yn Graig Fach, Llangennech ac hefyd yn Ysgol Babanod Porth Tywyn, dan arweiniad Jamie Miller a Tony Eames. Roedd y 6 cyfranogydd rhwng 16 a 20 mlwydd oed, ac nid oeddent mewn addysg, swydd nac unrhyw ffurf arall o hyfforddiant.

Cyfeiriwyd y ieuenctid i'r prosiect gan amryw o fudiadau gan gynnwys Ymddiriedolaeth Y Tywysog, y Tîm Troseddu Ieuenctid ac UCD (Uned Cyfeirio Disgyblion) Llanelli. Daeth un cyfeiriad o Gyrfaoedd Cymru, ond llwyddodd y llanc hynny i gael lleoliad gwaith cyn i'r prosiect gychwyn, felly ni fedrodd fynychu. Cofrestrwyd pob cyfranogydd ar gyfer uned RhCA lefel 1 'Adeiladu Lloches Bren Sylfaenol' a bu Becky yn Ddilysydd Mewnol (DM).

Treuliwyd 5 niwrnod yng Nghraig Fach yn dysgu defnyddio offer yn ddiogel, sgiliau gweithio pren irlas ac yn paratoi'r deunyddiau i'r meintiau cywir. Yn ystod y cyfnod hyn, ymwelodd Dilysydd Allanol (DA) RhCA â'r prosiect ac adroddodd bod yna:
"Dystiolaeth gwych o DM, asesiadau a chofnodion llwybro; tystiolaeth cynhaliol da a pharatoadau ardderchog i ddarparu aseiniad mewn safle bellennig, ac wedi mynd i'r afael â phob mater iechyd a diogelwch / asesu risg." Wedi 2 ddiwrnod, yn anffodus, bu'n rhaid i un o'r ieuenctid mwyaf blaengar a galluog adael y cwrs, oherwydd ei fod wedi gorfod symud tŷ yn annisgwyl.

Treuliwyd 5 niwrnod nesaf y cwrs yn Ysgol Babanod Porth Tywyn yn adeiladu'r gysgodfa. Roedd yr ysgol yn gynhwysfawr iawn i'r ieuenctid, yn gosod ffens o amgylch y safle gwaith ac yn darparu cyfleusterau gwneud te. Datblygodd y criw y gallu i gydweithio yn dad wrth i amser dreulio, a tyfodd eu hyder dros y 10 diwrnod. Ymwelodd newyddiadurwr o'r Llanelli Star â'r prosiect a bu yna adroddiad yn y papur yr wythnos ganlynol.

Derbyniodd Tir Coed llythyr o ddiolch gan ddisgyblion Ysgol Porth Tywyn: *"Thank you for building the hut in our school. It is very nice. You have good workers and have worked very hard"*

Adborth:

Ieuenctid:
Hoffterau - *"Rhoddi'r to ar ben y caban"*
"Mynd gyda Jamie a Tony i dorri boncyffion ar gyfer llawr y caban a'u cario yn ôl i'r trelar"
"Pob dim"

Anhoffterau- *"Tyllu'r tyllau ar gyfer y prif byst"*
"Cyrraedd yn rhy gynnar"
"Dim byd"

Yn hyn rwyf wedi dysgu: *"i wisgo hetiau caled – pwysig ar gyfer diogelwch. Mae'n rhaid ymlynio sgaffald ac ysgolion i'r llawr, dylech bob amser basio offer â'r ochr finiog yn eich hwynebu chi."*
"sut i osod pethau gyda'u gilydd, fel cladin to"
"Mae to yn cael ei adeiladu mewn haenau, rhaid dechrau ar y gwaelod a gweithio tuag i fyny, gan hoelio pob un."

Gweithiwr Cynorthwyol:
"Y newid mwyaf i mi sylwi gydag xxx oedd i'w hymddygiad fynd yn llai ymosodol a daeth yn fwy cefnogol ac annogol."

"sylwebodd gweithiwr cynhaliol ysgol yyy bod yna wahaniaeth cymdeithasol i'w weld ynddo, ei fod yn rhyngweithio gyda'i gyfoedion, a bod hyn yn dda i'w weld."
- Sian Cornelius

Hyfforddwr:
"Rwyf yn falch iawn o'r myfyrwyr ar y cwrs hwn; mae'r adeilad gorffenedig yn brawf o'u gwaith a'u hymroddiad iddo. Gwaith da!" – Jamie Miller.

"Gwerthfawrogiad o gymorth & ymroddiad yr holl Weithwyr Cynorthwyol a fu'n ymwneud â'r cwrs." – Tony Eames.

Gweithgynhyrchu Pren:
Roedd diwrnodau 11 & 13 o'r sesiynau blasu yn cynnwys gweithdy gweithgynhyrchu pren â gynhaliwyd yng ngweithdy Foothold, Llanelli ac fe'i arweiniwyd gan 3 aelod o staff Foothold. Cynhyrchodd y ieuenctid meinciau o bren meddal ar gyfer ei hunain. Roedd cydrannau y meinciau wedi eu torri yn barod; roedd yn rhaid i'r cyfranogwyr gydosod y cydrannau ac yna'u gorffen i'w dyluniad ei hunain. Ar yr ail ddiwrnod, cafwyd cystadleuaeth am y fainc orau, bu hyn yn sbardun i'r ieuenctid orffen eu meinciau mewn modd creadigol, gydag un yn torri ac yn gludo llythrennau ei enw allan o bren, ac eraill yn cerfio a phaentio dyluniadau ar eu meinciau. Rheolwr-gyfarwyddwr Foothold oedd y beirniad, a beirniadwyd bod y meinciau i gyd o safon uchel – gwobrwywyd pawb â chacennau hufen. Roedd staff Foothold braidd yn bryderus am broblemau ymddygiad i gychwyn, ond fe'u siomwyd ar yr ochr orau gan ba mor gwrtais a barod i ddysgu oedd y criw. Ar yr ail ddiwrnod, daeth Swyddog Gyrfaoedd i ymweld ag aelodau o'r criw yn unigol i drafod opsiynau datblygu gyrfa; bydd manylion unrhyw sesiynau dilynol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad nesaf.

Adborth:

Ieuenctid:
Hoffterau - *"Mwynheais popeth, rwy'n hoffi mynd â rhywbeth adref"*
"Drilio & thorri pren."

Anhoffterau-*"Dim byd"* x 3

Pethau i mi wneud a dysgu: *"Gwnaethom meinciau ac roedd hynny'n wych."*
"Rydym wedi bod yn defnyddio offer i wneud meinciau a'u dylunio a'u paentio."
"bod yn rhaid i chi ddefnyddio offer yn y modd cywir"

Hyfforddwr:
"Ni wnaeth unrhyw unigolyn golli ffydd yn yr hyn roeddent yn ei wneud ac roeddent yn bositif iawn wrth dderbyn unrhyw fath o gyfarwyddid. Un o'r datblygiadau mwyaf dymunol, heblaw am wylio'u mwynhad, oedd eu gweld yn datblygu fel criw a'r synergedd cyffredinol oedd yn bodoli." – Adrian Scott.

Sialens Goroesi:
Treuliwyd 2 ddiwrnod diwethaf y sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig ar sialens goroesi preswyl. Arweiniwyd y weithgaredd gan Andy Price o Dryad Bushcraft yng Nghoed Clyne, Abertawe. Cafwyd amser bendigedig wrth i'r ieuenctid ddysgu i greu llochesau, i lwybro, sgiliau trywyddu a sut i gynnau tân gan ddefnyddio dril bwa a chaselltr. Roedd y criw hyn wedi gwneud yn dda, ac roedd y weithgaredd breswyl yn wobr addas ar gyfer yr holl ymdrech iddynt roddi i'r prosiect.

Adborth:

Ieuenctid:
Hoffterau - *"Gwneud tân a rhoddi'r cynfas lan"*

Anhoffterau-*"Dim byd"*

Pethau i mi wneud a dysgu: *“chwibanau a thân.”*

NOD	CYRHAEDDIANT	SYLWADAU
O leiaf 60% o’r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a’u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	5 allan o’r 6 cyfranogydd wedi cynhyrchu o leiaf 1 eitem o grefft llaw	Roedd yn rhaid i 1 cyfranogwr adael y cwrs wedi 2 ddiwrnod oherwydd ei fod yn symud i ffwrdd.
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o’r amser.	Cyfradd presenoldeb cyfartalol 75%. Roedd gan 83% o’r cyfranogwyr gyfradd presenoldeb o 87%.	Roedd gan 4 cyfranogydd gyfradd presenoldeb o 100%
O leiaf 60% o’r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Enwodd 100% o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Enwodd 3 allan o’r 5 cyfranogydd a gwblhaodd ffurflen adborth o leiaf un math o anifail y goedwig.	Roedd y prosiect hwn ddim ond wedi ei leoli yn rannol ar safle coetirol.
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i’r amgylchfyd	Roedd 100% yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd o feunydd i’r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o’r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a’u lles:		
O leiaf 60% o’r bobl ifanc yn teimlo’n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd y 5 cyfranogydd a gwblhaodd y ffurflen adborth yn teimlo’n hapusach	
O leiaf 60% o’r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Byddai 100% yn hoffi mynychu mwy o weithgareddau coetirol.	
Twf mewn sgiliau sy’n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith:		
O leiaf 60% o’r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Derbyniodd 5 allan o’r 6 cyfranogydd nued RhCA lefel 1	
O leiaf 60% o’r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	Cyfradd presenoldeb **pob** cyfranogydd oedd 75%	
O leiaf 25% o’r cyfranogwyr yn symud	Ar hyn o bryd mae’r 5	Bydd cynnydd ar y

ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu cael gwaith	cyfranogydd a roddodd adborth eisiau mynd ymlaen i hyfforddiant pellach ynteu gwirfoddoli	nod hwn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf

Ym mha ffordd ydych chi'n teimlo'n well am eich hunan wedi'r weithgaredd? –

"Rwy'n gwybod nawr y gallaf ymuno â'r fyddin – mwy o hyder & sgiliau & cymeryd mwy o gyfrifoldeb am bethau"
"Mae'n dda i fod allan o'r tŷ. Rwy'n teimlo fel bod gennyf sgiliau newydd."
"Mae'n rhoi syniadau i mi o beth allaf ei wneud"

c) Cynllun Coed Call

(Ar gyfer pobl ifanc, 14 – 16 mlwydd oed sydd wedi cael, neu mewn perig o gael eu diarddel o'r ysgol)

Powys

Cafwyd gynnydd ar ddatblygu cynllun Coed Call ym Mhowys ar gyfer mis Medi fel a ganlyn:

1. Mae dau weithiwr ieuenctid sy'n gweithio gyda disgyblion blwyddyn 11 yn Ysgol Uwchradd Llanidloes wedi mynegi diddordeb mewn cychwyn prosiect Coed Call ar gyfer yr ysgol. Yn dilyn trafodaethau ag Anna Jenkins, mae Gwyneth yn ymholi am gael defnyddio coedlan gymunedol Llanidloes. Perchennog y goedlan yw cyngor y dref ac fe'i reolir gan Swyddog Coed Cymru. Mae Gwyneth wedi cysylltu â'r cynghorwr perthnasol, ac mae yntau yn ceisio caniatâd cyngor y dref i gychwyn y prosiect arfaethedig. Mae Swyddog Coed Cymru yn gefnogol iawn ac yn frwd i weld criwiau lleol yn cymeryd rhan yn y gwaith cynnal a chadw.
2. Byddai gweithiwr ieuenctid sydd yn gweithio gydag Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion hefyd yn hoffi cychwyn prosiect Coed Call. Mae hi'n gweithio gyda disgyblion blynyddoedd 10 ac 11, gan gynnig nifer o weithgareddau ar gwricwlwm llydan, ac mae ganddi ddiddordeb mewn cynnig gweithgareddau coetirol am un diwrnod ym mhob wythnos.

Y goedlan agosaf i'r ysgol yw Coed Mathrafal a reolir gan CC Cymru. Ar hyn o bryd mae Gwyneth yn trafod gyda swyddogion CC Cymru er mwyn dynodi safleoedd a gweithgareddau addas.

Mae hyfforddiant cychwynnol y gweithwyr ieuenctid wedi ei gynllunio ar gyfer yr wythnos gyntaf o fis Medi, bydd hyfforddiant pellach yn cael ei gynnig yn ystod y tymor cyntaf.

Ceredigion:

Coed Pen yr Allt:

Er mae dim ond 3 person ifanc sydd wedi mynychu'r prosiect hwn yn ystod tymor yr haf, mae'r 3 ohonynt wedi cêl buddiannau o gyfranogi. Yr allbynnau dysgu cyffredinol yw:

- Sut i ddefnyddio offer gwaith coed cyffredinol;
- Sut i ddefnyddio ceinion a bwyeill;
- Sut i ddefnyddio Caseg Lyfnu a Chyllell Deugarn;
- Sut i droelli pren ar tyrn polyn;
- Sut i adeiladu blwch adar / blwch drych;
- Sut i gynnau a chynnal tân gwersyll;
- Sut i hollti pren yn ddiogel;
- Sut i godi gwrthrychau trymion yn gywir;
- Sgiliau sylfaenol hylendid bwyd a choginio;
- Sut i drafod, gwrando a chyfranni mewn sefyllfa grŵp;
- Gwell ymwybyddiaeth i goetiroedd, cynefinoedd ar draws i'r byd a'u breuder;
- Curiadau drwm sylfaenol a sut i ddefnyddio curiadau ar ac oddi-ar y curiad
- Sut i greu seindiroedd ei hunain.

Oherwydd bod un o'r cyfranogwyr ym mlwyddyn 11, ac felly yn eistedd arholiadau, dim ond 2 gyfranogydd gwblhaodd y Ffurflen Adborth ar ddiwedd y tymor.

NOD	CYRHAEDDIANT	SYLWADAU
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Aeth pob cyfranogydd ag o leiaf 2 eitem adref gydag hwy.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Dim ond ffotograffau ar hyn o bryd – nid yw'r cyfranogwyr yn gyfforddus â recordiadau fideo.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol o leiaf 70% o'r amser.	Roedd gan y 2 ddisgybl blwyddyn 10 gyfradd presenoldeb o 87.5% ar gyfer y tymor.	Ni fynychodd y disgybl blwyddyn 11 yn ystod Mai na Mehefin, oherwydd yr arholiadau.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:	Roedd pob cyfranogydd a gwblhaodd y ffurflenni adborth yn medru enwi un math o goeden ac un math o anifail y goedwig.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Yr un peth – rhoddodd pob cyfranogydd y sgôr uchaf i'w hunain wrth hunanasesu.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Byddai y 2 ddisgybl blwyddyn 10 yn hoffi parhau eu hymrwymiad i'r prosiect.	
Nod:	**Carreg Filltir:**	**Sylwadau:**
Cynyddu sgiliau er mwyn cynyddu cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc		
O leiaf 60% o gyfranogwyr yn derbyn achrediad	Mae 2 allan o'r 3 cyfranogydd wedi cwblhau 2 uned achrediad RhCA	Ymunodd y 3ydd cyfranogydd â'r prosiect hanner ffordd drwy darparu'r RhCA ac felly ni fedrwyd ei gofrestri.

O leiaf 60% o gyfranogwyr yn dangos agwedd bositif ar ddatblygiaeth gyrfa	Amherthnasol ar gyfer y 2 ddisgybl blwyddyn 10. Mae'r 3ydd yn disgwyl canlyniadau ei arholiadau cyn penderfynu ar opsiynau gyrfa.	

Adborth ar gyfer y 3ydd Tymor:

Hoffterau - *"Popeth"*
"Gwneud ffrindiau"
"Offerynnau cerddorol – drymiau a gitâr"

Anhoffterau - *"Dim signal ffôn symudol"*
"Dim byd"

Beth wnaethoch chi? – *"Gwneud lloches sylfaenol, gwneud bat rounderi...ffon gerdded & blychau adar... coesau offer llaw."*
"Helpais gyda gwneud lloches, gwneud rholbren, dysgais sut i lyfnu pren."

Roedd un o'r cyfranogwyr yn teimlo'n well yn ei hunan wedi iddo gyfranogi, gan ddweud:
"Teimlaf yn fwy ymlaciol a chanolbwyntiedig. Cyn dod yma roeddwn yn ymladdgar a chrac, ond dim rhagor."
Roedd y cyfranogwr arall yn teimlo yr un peth, ond dywedodd ei fod wedi dysgu sgiliau newydd hefyd.

Adborth o'r Arweinwr:
"Mae hyder pob un ohonynt wedi tyfu, ynghyd â sgiliau, canolbwyntio, gweithio yn rhan o dîm.
Mae XXX wedi dangos ymrwymiad a brwdfrydedd 100%. Mae wedi egino, aeddfedu a disgleirio ... nid yw eisiau i'r prosiect orffen. Roedd yn tueddi i gael llawer o ddamweiniau ar gychwyn y prosiect, ond erbyn hyn mae'n meddwl llawer mwy cyn gweithredu. Mae'r celwyddau wedi gorffen."
"Ni fynychodd YYY yn ystod yr hanner tymor diwethaf oherwydd adolygu ac arholiadau ond daeth yn ôl am nu sesiwn oherwydd ei fod wedi mwynhau gymaint. Mae hyder YYY wedi tyfu yn fawr o ran ei sgiliau corfforol ac wrth gyfathrebu mewn criw. Mae'n llawer mwy cleberus nag ydoedd ar y cychwyn."
"Ymunodd ZZZ â'r prosiect yn hwyr, roedd yn pryderi yn bennaf am ei ddelwedd bersonol, ond wrth i'r wythnosau dreulio diddordebodd fwyfwy mewn ymuno â'r eraill a gwneud ffrindiau. Llanc meddylgar iawn, mae wedi ymgyffordduso nawr, gan chwilota a gwrando ar y cynghorion y gallwn roddi. Dechreuodd y sesiynau a'i sylw ar hyd y lle, ond mae wedi llwyddo i gynyddu ei ganolbwyntiad, yn enwedig yn ystod sesiynau cerddorol."

O fis Medi 2008, bydd Adran Addysg Ceredigion yn newid strwythur ei weithgareddau cwricwlwm lletach er mwyn cynnig mwy o amrywiaeth i'r ieuenctid.
Bydd y strwythur yn cynnwys prosiectau achredadwy mewn cyfnodau byrion o hanner tymor yr un; hynny yw, bydd pob uned yn rhedeg am 6 wythnos, yn y cyfnod hwn, bydd uned Rhwydwaith Coleg Agored yn cael ei ddarparu. Os nad oes yna 3 person ifanc neu fwy wedi cofrestri ar gyfer y cwrs, yna ni fydd y weithgaredd yn digwydd.

Y cynnig ar gyfer yr hanner tymor cyntaf yw i redeg 2 weithgaredd yng Nghoed Pen yr Allt:
a) Gweithgareddau perfformio a chreu yn y coed (pob Dydd Iau);
b) Gweithgareddau coetirol a rheoli cefn gwlad (pob Dydd Gwener).
Bydd Tir Coed yn cynnal y 2 weithgaredd hyn am yr hanner tymor cyntaf; mae'r hyn fydd yn digwydd wedi'r cyfnod hyn yn dibynnu yn llwyr ar y nifer o ieuenctid a fydd yn mynegi diddordeb yn y gweithgareddau.

Coed Bryn Derwen:
Dechreuodd yr ail brosiect Coed Call Ceredigion hyn ym mis Ebrill mewn coedlan ar ffin Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.
Arweinir y prosiect gan 3 gweithiwr ieuenctid, yn gweithio gyda 9 person ifanc sydd ddim ym myd addysg, hyfforddiant na gwaith. Er bod y criw dim ond wedi bod yn gweithio yn y goedlan ers un tymor, mae llawer wedi ei gyflawni. Maent wedi adeiladu tŷ bach gwrtaith ac ardal gweithdy, tyrnau polyn a chesig llyfnu. O ganlyniad i gyrsiau Arweinwyr Coed Call bu'r criw yn adeiladu'r offer hyn, a holltwyr coed, ynghyd â dysgu sut i gynnau tân, coginio a choedwriaeth sylfaenol.

NOD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Mae pob cyfranogydd wedi mynd ag o leiaf 2 eitem adref gydag hwy.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Dim ond ffotograffau ar hyn o bryd – nid yw'r cyfranogwyr yn gyfforddus â recordiadau fideo.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol o leiaf 70% o'r amser.	Roedd gan 70% o'r cyfranogwyr gyfradd presenoldeb o 87.5%. Y cyfradd presenoldeb ar gyfer y criw cyfan oedd 73.6%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:	Medrodd pob cyfranogydd a gwblhaodd ffurflen adborth yn medru enwi un math o goeden, a math o anifail y goedwig. Roedd 50% yn ymwybodol o sut y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		

O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 100% yn teimlo'n well yn eu hunain wedi cyfranogi yn y weithgaredd	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Dywedodd pob cyfranogydd a gwblhaodd ffurflen adborth eu bod wedi mwynhau'r gweithgareddau.	
Nod:	**Carreg Filltir:**	**Sylwadau:**
Cynyddu sgiliau er mwyn cynyddu cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc		
O leiaf 60% o gyfranogwyr yn derbyn achrediad	Na	Oherwydd i'r prosiect ddechrau yn nhymor yr haf, nid oedd modd darparu achrediad. Ond, mae hyn wedi ei gynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.
O leiaf 60% o gyfranogwyr yn dangos agwedd bositif ar ddatblygiaeth gyrfa	Mae pob cyfranogydd sydd dan 16 mlwydd oed eisiau parhau â'r weithgaredd ym mis Medi.	

Hoffterau - *"Y gweithgareddau, y pobl a'r gwersylla"*
"Gwneud bat pêl fâs, madarch pren a'm caseg lyfni"

Anhoffterau - *"Pryfed coed"*
"Y mochyn (sy'n pori'r llystyfiant)

Sut ydych chi'n teimlo yn eich hunan?
"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio offer"
"Oherwydd fy mod wedi dysgu sgiliau newydd" x 2
"Ym mhob ffordd"

Adborth o'r Arweinwr:
"Daeth y criw i gyd yn fwy ymrwymedig wrth i'r prosiect mynd yn ei flaen ac wrth iddynt weld ffrwyth eu llafur. Roeddent i gyd yn falch iawn o'r tŷ bach gwrtaith a'r gweithdy iddynt greu a'r gwrthrychau iddynt wneud. Tyfodd hunanwerth a hyder y ieuenctid yn eu galluoedd. Sylwais hefyd ar gynnydd yn y parch a'r cydweithio â ddigwyddodd yn y criw a dangoswyd enghreifftiau gwych o weithio tîm."
"Roedd XX yn ei anterth yn y coed, er y gallai bod ychydig yn rhy frwd ar adegau! Roedd yn hoff iawn o gerfio pren ac adeiladu, a bu hyn yn gymorth iddo gynllunio a ffocysu, gan wella ei allu i ganolbwyntio yn fawr (mae gan XX ADHD)"
"Bu'r sesiynau o feunydd mawr i YY, yn enwedig yr elfen gorfforol, e.e. clirio mieri, llifio ayyb. Cynhyrchodd gaseg lyfnu wych gyda ZZ ac mae'n gobeithio gwneud mwy yn y coed yn y dyfodol."

Yn anffodus, mae yna broblem hygyrchedd yn y goedlan hon, ac mae yna bryder y bydd cyflwr gwael y llwybr yn atal mynediad yn ystod misoedd y gaeaf. Mae perchennog y goedlan wedi cytuno i wella'r llwybr, ond nid yw'r gwaith wedi cychwyn hyd yn hyn. Hefyd, mae'r perchennog yn anhapus nad ydyw yn cael ei dalu am fod yn gydymaith i'r criw pan maent yn ymweld â'r goedlan. Esboniodd Gwyneth o'r cychwyn nad oes gan Tir Coed y gyllideb i ariannu Arweinwr Coed Call, ond yn hytrach ein bod yn gweithio trwy'r Wasanaeth Ieuenctid a'r Awdurdod Addysg lleol.
Wedi ymgynghori â'r gweithwyr ieuenctid sydd ynghlwm â'r prosiect, rydym wedi penderfynu chwilio am goedlannau eraill i weithio ynddynt wedi mis Medi. Mae gan Coed Cadw goedlan ger Llandysul, ac mae hon yn un o'r opsiynau arfaethedig.
Os bydd y prosiect yn symud i safle newydd, yna bydd yr offer, y turnau polyn a'r cesig llyfnu yn symud hefyd, oherwydd eu bod yn eiddo i Dir Coed.

Sir Gaerfyrddin:

Coed Woodhouse
Mynychodd 9 person ifanc y prosiect hwn dros y tymor diwethaf, daethant o flynyddoedd 10 ac 11 o ysgolion Y Frenhines Elizabeth a Bro Myrddin yng Nghaerfyrddin. Arweiniwyd y prosiect gan Rachel Cray, Simone Pearce a Tim Evans o Wasanaeth Ieuenctid Sir Gaerfyrddin. Mae'r criw wedi datblygu dull o gydweithio sydd fel arfer yn golygu eu bod yn ymrannu i griwiau llai er mwyn gweithio ar brosiectau ar y cyd neu rhai unigol. Daethpwyd â 2 hyfforddwr allanol i'r goedlan yn ystod y tymor, er mwyn cynorthwyo rhai o weithgareddau'r criw. Arweiniodd Jo Steadman weithdy creu coryglau, a bu Alan Barlow yn helpu'r criw i greu tyrn polyn. Bydd y tyrn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau newydd yn y tymor academaidd newydd.

Bu'r allbynnau dysgu cyffredinol yn cynnwys:

- Prysgoedio coed Helyg;
- Sut i ddefnyddio offer gwaith coed cyffredinol, creu gwrthrychau syml, fel morthwylion trwm;
- Sut i ddefnyddio caseg lyfnu a chyllell deugarn;
- Cynnal a chadw llwybrau a sut i drwsio arwyddion
- Sut i greu cwrwgl o helyg
- Sut i greu palis helyg
- Sut i greu llwyau
- Sut i greu tyrn polyn
- Sut i gynnau a chynnal tân gwersyll;
- Gwneud llochesau
- Gwneud blychau adar

Oherwydd anawsterau cyfathrebu gydag Arweinwyr y prosiect ym Mai a Mehefin, oherwydd i un Arweinydd fynd ar ei wyliau a'r un arall fod yn absennol oherwydd salwch, ni gasglwyd adborth o ddisgyblion Blwyddyn 11 (gan eu bod wedi gadael yr ysgol cyn i ni fedru cysylltu â hwy), casglwyd adborth o'r 3 disgybl ym mlwyddyn 10 yn unig. Gadawodd 2 allan o'r 9 cyfranogydd yr ysgol ar ddiwedd mis Ebrill, wedi iddynt orffen eu harholiadau lefel mynediad, felly gwnaethant adael y prosiect hefyd; oherwydd hyn, crëwyd y cyfraddau presenoldeb ar 7 cyfranogydd.

NOD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		

Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Mae pob cyfranogydd wedi mynd ag o leiaf 1 eitem adref gydag hwy.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Dim ond ffotograffau ar hyn o bryd – nid yw'r cyfranogwyr yn gyfforddus â recordiadau fideo.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol o leiaf 70% o'r amser.	Cyfradd presenoldeb cyfartalol 83%. Mae gan pob cyfranogydd gyfradd presenoldeb o o leiaf 70%.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:	Medrodd pob cyfranogydd a gwblhaodd ffurflen adborth yn medru enwi un math o goeden, a math o anifail y goedwig. Roedd 50% yn ymwybodol o sut y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Yr un peth – rhoddodd pob cyfranogydd y radd uchaf i'w hunain yn yr hunanasesiad.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Hoffai'r ddau ddisgybl o flwyddyn 10 barhau ei hymrwymiad â'r prosiect.	

Adborth ar gyfer Tymor 3:

Ieuenctid

Hoffterau - *"Pob dydd"*
"paratoi'r tân"
"y blwch adar"

Anhoffterau - *"casglu offer o'r gweithdy"*
"Dim byd"
"toiledau"

Beth wnaethoch chi? – *"Gordd – defnyddiais fwyell/ cyllell deugarn a chaseg lyfni i'w greu"*
"Blwch adar a morthwyl a'r lloches".

Sut ydw i'n teimlo'n well? – *"rwy'n gweithio mewn criw yn well."*

"Gwell ymddygiad a gwaith tîm" x 2

Arweinwyr:
"Teimlwn bob y ieuenctid wedi ennill sgiliau newydd ar amryw o lefelau. Ar gyfer llawer yn y criw, gan gynnwys y staff, enillwyd hyder a gwybodaeth er mwyn creu gweithdai mor eithriadol o greadigol. Ar gyfer eraill, roedd bod a gweithio yn ran o griw yn brofiad newydd a phwysig ar gyfer eu datblygiad. Ar gyfer y ieuenctid roedd gweithio tuag at addysg y tu hwnt i furiau'r ysgol yn gysyniad estron, ond yn un a edrychai yn fuddiol.... Yn enwedig ar gyfer dau unigolyn a arferai bod yn ymosodol iawn tuag at ei gilydd, a weithiodd yn dda iawn yng nghwmni'u gilydd y tu hwnt i'r ysgol. Sylwom hefyd bod y criw yn disgwyl y sesiwn nesaf yn eiddgar wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ... gan gynllunio camau nesaf eu prosiectau personol a sut i drin yr offer orau.
Yn gyffredinol, teimlwn bod y rhaglen yn un blaengar, gan roddi profiad i'r ieuenctid nad yw'r rhan fwyaf o'u cyfoedion yn cael cyfle i'w brofi. Yn bersonol, teimlaf y dylai'r fath hyn o weithgareddau bod ar gael i bob disgybl drwy'r wlad, yn ffurfio rhan o'r cwricwlwm."
- Tim Evans

Hyfforddwyr:
"Bu pawb yn weithgar iawn, gan wneud gwaith da wrth i ni brysgwyddo'r cyll – roeddent yn falch iawn o hyn. Bu creu'r gordd yn hwb i hyder 2 o'r cyfranogwyr, gan ddangos dyfal barhad wrth iddynt wynebu anawsterau – buont wedyn yn dysgu i'r gweithiwr ieuenctid a fu'n ymweld sut i greu gordd." – Jo Steadman

"Anogwyd i aelodau'r criw gael cyfrifoldeb dros eu mesur, marcio, llifio a drilio, a bu pob un ohonynt yn cyflawni pob tasg yn ei dro. Cydweithiodd y criw yn dda iawn, gan gydnabod cryfderau a hoffterau ei gilydd, ac felly cwblhawyd y dasg yn dda." – Alan Barlow.

Mae yna ansicrwydd ynglŷn â pha ddisgyblion fydd yn mynychu'r prosiect Coed Call o fis Medi 2008. Hoffai un o'r ysgolion anfon criw newydd o ddisgyblion Blwyddyn 10, ond hoffai'r Arweinwyr petai rhai o'r criw presennol yn medru parhau â'r weithgaredd. Hefyd, mae'n bosib y bydd Tim Evans yn ailgydio yn ei hen swyddogaeth o fod yn weithiwr ieuenctid teithiol. Gobeithiwn gael gwell gafael ar y sefyllfa ym mis Medi.

Sir Benfro:

Coedlan Green Links & Canolfan Ieuenctid Dinbych y Pysgod

Cynhaliwyd 8 sesiwn yn y tymor hwn, yng Nghoedlan Green Links, Penfro ac yng Nghanolfan Ieuenctid Dinbych y Pysgod gyda disgyblion o ysgol Green Hill dan arweiniad Anthony Harris a Matt Done o Wasanaeth Ieuenctid Sir Benfro. Nid aeth y sesiynau fel y dymunwyd ac fe'u diweddwyd am y flwyddyn hon yn gynnar ym mis Mehefin, mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys:

- Mae un o'r Arweinwyr, Matt Done, wedi symud o weithio yn Ysgol Penfro i leoliad gwahanol gyda'r Wasanaeth Ieuenctid. Bu Matt yn gweithio gyda'r criw yn achlysurol wedi hyn.
- Fandaleiddiwyd lloches symudol y criw ym mis Mai, wedi iddynt weithio yn galed arno, gan hyd yn oed canfod pren ar ei gyfer. Achubwyd y cynfas ond yn anffodus nid oedd modd achub y ffrâm. Dechreuodd Anthony Harris weithio ar tipi gyda'i griw yn syth, gan ei fod yn haws ei gadw yn ddiogel.

- Bu un o aelodau'r wasanaeth ieuenctid, a oedd yn ymwneud â'r cyfranogwyr, farw yn sydyn. Roedd yna alw poblogaidd am greu gardd gofiannol yng Nghanolfan Ieuenctid Dinbych y Pysgod yn hytrach na'r gweithgareddau a gynlluniwyd.
- Cafodd Anthony Harris anaf difrifol yn gynnar ym mis Mehefin, ac mi fydd oddi ar ei waith am gyfnod hir.

Ni gasglwyd adborth na rhestrau presenoldeb o'r prosiect hwn, oherwydd iddo beidio mor sydyn. Nid yw Tir Coed yn medru cysylltu ag Anthony tra'i fod ar absenoldeb salwch. Ni gwblhawyd yr uned RhCA 'adeiladu lloches o bren', lle byddent yn adeiladu gweithdy dan oruchwyliaeth Dave Hoyle am yr un rheswm. Nid ydym yn gwybod os gwblhawyd yr uned 'Adnabod Offer' gan y criw ychwaith.

Cafwyd yr allbynnau canlynol:
- Adeiladu lloches symudol
- Sut i osod polion mewn sment ar gyfer adeiladu gweithdy
- Sut i greu ardal o ardd

Aeth yr arweinwyr â chriw o ddisgyblion Blwyddyn 9 & 10 i wersylla am 3 diwrnod i Fae Morfa yn ystod wythnos yr hanner tymor – gallai'r disgyblion hyn fod yn gyfranogwyr ar gyfer prosiect Coed Call 2008. Gobeithiwn y bydd Anthony Harris wedi dychwelyd i'w waith erbyn mis Medi ac y bydd yn parhau yn ei waith da gyda'r prosiect.

Hyfforddi Gweithwyr Cynorthwyol:

Hyfforddi Arweinwyr Coed Call:

Ar hyn o bryd mae 7 Gweithiwr Ieuenctid o Geredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn derbyn hyfforddiant ar gyfer arwain prosiectau Coed Call yng Ngholeg Coppicewood. Bydd yr hyfforddiant hyn yn arwain at sefydlu 2 brosiect Coed Call newydd yn y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi -
Un ym Mharc Gwledig Mynydd Mawr gyda disgyblion o Uned Cyfeirio Disgyblion Llanelli; ac un gyda disgyblion Ysgol Syr Thomas Picton, Hwlffordd, i'w leoli mewn coedlan gerllaw.

Mae'r hyfforddiant yn cael ei arwain gan Jo Steadman, hyfforddwr Ysgol Goedwig a Nick Barnes, hyfforddwr gwaith pren irlas yng Ngholeg Coppicewood.

Cynhwysir y meysydd canlynol yn yr hyfforddiant:
Iechyd a Diogelwch yn y coed;
Asesu Risg;
Trin a defnyddio offer yn ddiogel;
Rheoli tanau yn ddiogel;
Gwehyddu deunyddiau naturiol;
Egwyddorion rheoli coetiroedd;
Cyflwyniad i weithio pren irlas;
Creu Caseg Lyfnu;
Cynnal a chadw offer;
Creu llwyau & offerynnau cerddorol syml.

Bydd adroddiad cyflawn ac adborth yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Chwarter Blwyddyn nesaf.

Diwedd yr Adroddiad.